TGAU

# CBAC TGAU Bwyd a Maeth

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Canllaw Cyflwyno

Addysgu o 2025

Dyfarnu o 2027

Fersiwn 2 - Chwefror 2025



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru. Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif tudalen |
|---|---|---|
| 2 | **Wedi'i osod a'i farcio gan y ganolfan** wedi'i gywiro i **Wedi'i osod gan CBAC, wedi'i farcio gan y Ganolfan**. Noder fod dau achos o'r newid hwn (ar gyfer Uned 2 ac Uned 3) | 2 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Cynnwys

Nodau'r Canllaw Cyflwyno ........ 1
Strwythur y Cymhwyster ........ 1
Uned 1 ........ 1
Uned 2 ........ 1
Uned 3 ........ 1
Crynodeb o'r asesu ........ 2
Amcanion Asesu ........ 3
Manyleb a Phecyn Asesu ........ 4
Deall yr ymhelaethiad yn y fanyleb ........ 4
Bonion y fanyleb ........ 4
Geiriau gorchymyn ........ 5
Cynlluniau Marcio ........ 8

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Nodau'r Canllaw Cyflwyno

Nod y Canllaw Cyflwyno yw rhoi trosolwg o'r cymhwyster a cheisio helpu athrawon i ddeall sut rydym yn asesu'r cymhwyster TGAU. Bydd yn cynnig cyflwyniad i'r fanyleb, trosolwg o'r asesu, a bydd yn cefnogi athrawon i ddeall yn well sut i baratoi eu dysgwyr ar gyfer asesu'r gwahanol unedau. Ceir rhagor o wybodaeth am bob uned yng nghanllawiau unigol yr unedau.

## Strwythur y Cymhwyster

Mae CBAC TGAU Bwyd a Maeth yn cynnwys tair uned:

| | **Teitl yr uned** | **Math o Asesiad** | **Pwysoli** |
|---|---|---|---|
| **Uned 1** | Egwyddorion Bwyd a Maeth | Arholiad digidol | 40% |
| **Uned 2** | Ymchwiliad Bwyd | Asesiad di-arholiad | 20% |
| **Uned 3** | Bwyd a Maeth ar Waith | Asesiad di-arholiad | 40% |

Mae pob uned yn orfodol.

### Uned 1
Pwrpas yr uned hon yw:
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o fwyd a maeth ac o baratoi a choginio bwyd.

### Uned 2
Pwrpas yr uned hon yw:
- cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion gweithio, swyddogaethau a phriodoleddau cemegol cynhwysion mewn rysáit.

### Uned 3
Pwrpas yr uned hon yw:
- cynllunio, paratoi, coginio a chyflwyno bwyd, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Crynodeb o'r asesu

| |
|---|
| **Uned 1: Egwyddorion Bwyd a Maeth**<br>**Arholiad digidol: 1 awr 30 munud**<br>**40% o'r cymhwyster**<br>**80 marc** |
| Cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion gwrthrychol, ymateb cyflym, atebion byr ac estynedig. |
| **Uned 2: Ymchwiliad Bwyd**<br>**Asesiad di-arholiad:8 awr**<br>**20% o'r cymhwyster**<br>**Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC**<br>**40 marc** |
| Wedi'i osod gan CBAC, wedi'i farcio gan y Ganolfan a'i chymedroli gan CBAC. Bydd yr asesiad yn cynnwys dau friff a gaiff eu rhyddhau ymlaen llaw y bydd CBAC yn eu gosod bob blwyddyn. Gall canolfannau ddewis un o'r ddau friff a gaiff eu rhyddhau ymlaen llaw yr hoffent i ddysgwyr eu cwblhau.<br><br>Bydd y briffiau a gaiff eu rhyddhau ymlaen llaw, a fydd yn cynnwys sawl tasg, i'w gweld ar wefan Porth CBAC. |
| **Uned 3: Bwyd a Maeth ar Waith**<br>**Asesiad di-arholiad: 12 awr**<br>**40% o'r cymhwyster**<br>**Wedi'i marcio gan y ganolfan a'i chymedroli gan CBAC**<br>**80 marc** |
| Wedi'i osod gan CBAC, wedi'i farcio gan y Ganolfan a'i chymedroli gan CBAC. Bydd yr asesiad yn cynnwys dau friff a gaiff eu rhyddhau ymlaen llaw y bydd CBAC yn eu gosod bob blwyddyn. Gall dysgwyr ddewis un o'r ddau friff a gaiff eu rhyddhau ymlaen llaw yr hoffent i ddysgwyr eu cwblhau.<br><br>Bydd y briffiau a gaiff eu rhyddhau ymlaen llaw, a fydd yn cynnwys sawl tasg, i'w gweld ar wefan Porth CBAC. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Amcanion Asesu

Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:
- bwyd a maeth
- paratoi, coginio a chyflwyno bwyd.

**AA2**
Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:
- bwyd a maeth
- paratoi, coginio a chyflwyno bwyd.

**AA3**
Dadansoddi a gwerthuso gwahanol agweddau ar y canlynol:
- bwyd a maeth
- paratoi, coginio a chyflwyno bwyd (gan gynnwys bwyd a seigiau a wneir ganddyn nhw eu hunain a gan eraill).

**AA4**
Cynllunio, paratoi, coginio a chyflwyno seigiau, gan ddefnyddio sgiliau a thechnegau priodol.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob uned ac ar gyfer y cymhwyster cyfan.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| Uned 1 | 15% | 15% | 10% | - | 40% |
| Uned 2 | - | 15% | 5% | - | 20% |
| Uned 3 | - | - | 5% | 35% | 40% |
| Pwysoliad cyffredinol | **15%** | **30%** | **20%** | **35%** | **100%** |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Manyleb a Phecyn Asesu

Pan fyddwn yn datblygu cymwysterau newydd, rydym yn cynhyrchu'r dogfennau canlynol:
- Manyleb: mae’r ddogfen hon yn ymdrin â'r holl wybodaeth a sgiliau y disgwylir i ddysgwyr eu gwybod erbyn diwedd eu cwrs.
- Pecyn asesu: mae'r pecyn hwn yn cynnwys y Deunyddiau Asesu Enghreifftiol h.y. papurau arholiad enghreifftiol a thasgau asesiadau di-arholiad enghreifftiol, rheolaethau perthnasol ar gyfer yr asesiad di-arholiad, a chynlluniau marcio.

Mae'r canllaw hwn yn adeiladu ar wybodaeth sydd yn y fanyleb a'r pecyn asesu i helpu i wella eich dealltwriaeth.

### Deall yr ymhelaethiad yn y fanyleb

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:
- bonion y fanyleb
- beth yw ystyr bonion y fanyleb.

### Bonion y fanyleb

Pan fyddwch chi'n edrych drwy'r fanyleb, byddwch yn sylwi ein bod yn defnyddio amrywiaeth o eiriau yn y golofn ymhelaethiad cyn y rhestr o gynnwys y mae angen i ddysgwyr ei wybod; bonyn yw'r enw ar hyn.

**Bonyn y Fanyleb**

| **Ymhelaethiad** |
|---|
| Dylai dysgwyr wneud y canlynol:<br>• **deall** gwerth maethol y grwpiau cynwyddau bwyd<br>• **bod yn ymwybodol o'r** cyfraniadau y mae dylanwadau diwylliannol wedi'u cael ar y bwyd rydym yn ei fwyta yng Nghymru, gan gynnwys cymunedau ac unigolion Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol. |

Defnyddir pob bonyn am reswm ychydig yn wahanol:

| Bonyn y Fanyleb | Pan gaiff ei ddefnyddio |
|---|---|
| **Dylai dysgwyr wybod** | Pan fydd gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol. |
| **Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o** | Pan fydd angen gwybodaeth sylfaenol ar ddysgwyr am y cynnwys penodol ac nad oes angen addysgu hyn yn fanwl. |
| **Dylai dysgwyr ddeall** | Pan fydd gofyn i ddysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach, cymhwyso gwybodaeth i gyd-destunau, a gwerthuso a dadansoddi gwybodaeth. |
| **Dylai dysgwyr allu** | Pan fydd angen i ddysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth at sefyllfa ymarferol neu ddangos gwaith cymhwyso sgiliau a thechnegau ymarferol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Geiriau gorchymyn

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o'r canlynol:
- beth yw geiriau gorchymyn
- beth yw ystyr pob gair gorchymyn
- beth mae pob gair gorchymyn yn ei asesu.

Geiriau gorchymyn yw'r geiriau a'r ymadroddion yr ydym yn eu defnyddio yn ein hasesiadau sy'n dweud wrth fyfyrwyr sut dylent ateb y cwestiwn neu gwblhau'r dasg. Mae geiriau gorchymyn yn tywys y dysgwr drwy'r cwestiwn neu'r dasg ac yn rhoi syniad o'r ymateb sydd ei angen.

1 (ch) Esboniwch beth yw ystyr dyddiad defnyddio erbyn.

**Gair gorchymyn**

Nid yw'r tablau canlynol yn gynhwysfawr, ond byddant yn rhoi syniad da i chi o'r geiriau gorchymyn a ddefnyddiwn fel arfer:

| **Geiriau gorchymyn ar gyfer galw i gof uniongyrchol** | |
|---|---|
| **Gair Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| Diffiniwch | Rhoi ystyr penodol term. |
| Disgrifiwch | Nodi nodweddion arbennig a rhoi manylion disgrifiadol, ffeithiol. Dyma un o'r geiriau gorchymyn a ddefnyddir amlaf. Os bydd angen esboniad, yna defnyddiwch ddau orchymyn: 'disgrifiwch ac esboniwch'. |
| Llusgwch a Gollyngwch | Symud i ran arall o sgrin gan ddefnyddio llygoden neu ddyfais debyg. |
| Darganfyddwch | Mewn ymateb i broblem fathemategol. |
| Nodwch | Cael ateb drwy gofio pethau. |
| Nodwch/Ticiwch/Cliciwch/ Rhowch gylch o amgylch | Amlygu rhywbeth a'i enwi o nifer o bosibiliadau. |
| Labelwch | Dynodi gan ddefnyddio enw. |
| Rhestrwch | Rhoi'r ffactorau (heb esbonio nac ymhelaethu). |
| Cyfatebwch/cysylltwch | Dewis rhywbeth sydd â'r un rhinwedd â rhywbeth arall. |
| Enwch | Nodi neu gwnewch restr. |
| Amlinellwch | Rhoi prif nodweddion. |
| Gosodwch | Rhoi rhywbeth mewn safle penodol. |
| Rhowch mewn trefn | Trefnu mewn ffordd systematig. |
| Nodwch | Mynegi'n glir. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| Geiriau gorchymyn ar gyfer cymhwyso/dangos sgiliau | |
|---|---|
| **Gair Gorchymyn** | **Gofynion yr ymateb** |
| Cymhwyswch | Defnyddio eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ddamcaniaeth neu gysyniad a chysylltu hynny â chyd-destun penodol.<br>Rhoi ar waith mewn ffordd briodol. |
| Categoreiddiwch/dosbarthwch | Gosod mewn dosbarth neu grŵp penodol. |
| Newidiwch | Diwygio cod, er enghraifft, yn ôl gofyniad y cwestiwn. |
| Cydweithiwch | Gwneud cyfraniad at waith tîm, helpu aelodau'r tîm fel y bo angen. |
| Cwblhewch | Ychwanegu eitemau/gwybodaeth angenrheidiol. |
| Dangoswch | Rhoi enghreifftiau, a disgrifio gan gyfeirio at enghreifftiau. |
| Dyluniwch | Penderfynu ar sut mae rhywbeth yn edrych a'i swyddogaeth drwy lunio neu luniadu cynlluniau. |
| Trafodwch | Cyflwyno pwyntiau allweddol. |
| Dangoswch | Cyflwyno gwybodaeth ar ffurf diagramau. |
| Amcangyfrifwch | Neilltuo bras werth. |
| Esboniwch | Rhoi rhesymau neu achosion. Dangos ddealltwriaeth o sut a pham mae rhywbeth wedi digwydd. |
| Archwiliwch | Ymchwilio heb unrhyw ragdybiaethau ynglŷn â'r canlyniad. |
| Eglurwch/Dangoswch | Defnyddio diagram neu eiriau i ddangos yn glir sut mae cysyniad neu ddamcaniaeth yn gweithio mewn cyd-destun penodol.<br>Cyflwyno enghreifftiau eglurhaol. Cyfeirio at astudiaeth achos neu enghraifft. |
| Holwch yn fanwl | Cwestiynu yn ffurfiol ac yn systematig. |
| Ymchwiliwch | Gwneud gwaith ymchwil neu gynnal astudiaeth i bwnc neu broblem. |
| Gwnewch/Cynhyrchwch/Crëwch | Creu/gwneud/gweithgynhyrchu. |
| Newidiwch | Gwneud newidiadau i roi cyfeiriadaeth newydd neu i gael canlyniad newydd. |
| Mae angen i chi fonitro | Arsylwi, gwirio neu gadw cofnod parhaus o rywbeth. |
| Cymerwch ran | Chwarae rhan. |
| Perfformiwch | Cyflawni neu gwblhau tasg, gweithred, neu weithgaredd. |
| Gosodwch | Rhoi rhywbeth mewn safle penodol. |
| Cynlluniwch | Cynnig manwl ar gyfer gwneud neu gyflawni rhywbeth. |
| Ychwanegwch fanylion | Ychwanegu eitemau penodol. |
| Cyflwynwch | Cyfathrebu mewn ffordd y gellir ei dilyn a'i deall yn glir. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cynigiwch | Awgrymu ffordd o weithredu yn seiliedig ar resymau wedi'u cefnogi. |
| Profwch | Dangos dilysrwydd ar sail tystiolaeth. |
| Cofnodwch | Cael a storio data a gwybodaeth. |
| Rhowch adroddiad | Paratoi adroddiad neu ddatganiad manwl am ddigwyddiad neu destun. |
| Adolygwch | Ystyried gwybodaeth |
| Dewiswch | Gwneud dewis priodol o amrywiol opsiynau. |
| Symleiddiwch | Ailysgrifennu mynegiad neu rif ar ffurf symlach. |
| Awgrymwch | Cyflwyno syniad, rheswm neu gam gweithredu posibl. |
| Crynhowch | Rhoi fersiwn wedi'i fyrhau o rywbeth, gan ddatgan ei brif bwyntiau heb fanylion. |
| Profwch | Cymhwyso prawf fel ffordd o gael diagnosis. |
| Defnyddiwch | Cymhwyso'r wybodaeth a ddarparwyd at ddamcaniaeth neu gysyniad penodol. Defnyddio, cymryd neu ddal rhywbeth at bwrpas. |

**Geiriau gorchymyn ar gyfer synthesis a gwerthuso**

| Gair Gorchymyn | Gofynion yr ymateb |
|---|---|
| Cynghorwch | Awgrymu cynnig neu ffordd o weithredu yn seiliedig ar resymau wedi'u hategu. |
| Dadansoddwch | Gwahanu gwybodaeth yn gydrannau a nodi eu nodweddion. |
| Cyflwynwch ddadl | Cyflwyno achos rhesymegol. |
| Aseswch | Cwestiwn gwerthuso yw hwn, sy'n golygu bod sawl esboniad/dadl/canlyniad posibl.<br>Ffurfio barn ar sail gwybodaeth.<br>Ffurfio barn am ansawdd neu werth rhywbeth. |
| Rhowch sylw | Cyflwyno barn wybodus. |
| Cymharwch | Nodi **tebygrwyddau**. |
| Ystyriwch | Darllen y wybodaeth a roddwyd ac ymateb iddi. |
| Cyferbynnwch | Nodi **gwahaniaethau'n unig**. |
| Cyflwynwch ddadl | Cyflwyno gwahanol safbwyntiau ar fater. |
| Datblygwch | Ymestyn, datblygu ymhellach, neu ymhelaethu. |
| Trafodwch | Archwilio mater yn fanwl mewn modd strwythuredig, gan ystyried gwahanol syniadau. |
| Gwahaniaethwch | Nodi'r gwahaniaethau rhwng dau neu ragor o ffactorau. |
| Gwerthuswch | Barnu o dystiolaeth sydd ar gael. |
| Archwiliwch | Ymchwilio'n ofalus. |
| Rhowch farn | Ffurfio barn / gwneud penderfyniad yn feirniadol. |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | |
|---|---|
| Cyfiawnhewch | Defnyddio tystiolaeth i gefnogi achos. |
| Argymhellwch/Awgrymwch ffordd o wella | Awgrymu fel y bo'n briodol. |
| Adfyfyriwch | Ystyried meddyliau, profiadau, sefyllfa neu fater. |
| Adolygwch | Ystyried rhywbeth gyda'r bwriad o wneud newidiadau os oes angen. |
| Awgrymwch | Rhoi rheswm neu ddull gweithredu posibl. |
| Cefnogwch | Cefnogi neu eirioli. |

## Cynlluniau Marcio

Mae cynlluniau marcio a/neu feini prawf asesu yn profi'r amcanion dysgu a fwriedir ar gyfer uned. Maent yn disgrifio'r wybodaeth a'r sgiliau (a'r agwedd o bosibl) y disgwylir i ymgeisydd eu dangos yn eu hymatebion, ac yna cânt eu defnyddio wrth farcio'r gwaith.

**Cynllun marcio yn seiliedig ar Amcanion**
Ar gyfer cwestiynau atebion byr iawn sy'n gofyn am un ymateb cywir.

| Cwestiwn | | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | (a) | (i) | Nodwch y prif facrofaetholyn sydd i'w gael mewn pasta. | | | | |
| | | | Rhowch **1 marc** am yr ateb cywir:<br>• Carbohydradau. | 1 | | | 1 |

**Cynllun Marcio Seiliedig ar Bwyntiau**
Ar gyfer cwestiynau atebion byr sydd ag amrywiaeth o ymatebion posibl.

| Cwestiwn | | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm Marciau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | (c) | Rhestrwch **ddwy** reol i'w dilyn wrth goginio pasta. | | | | |
| | | Rhowch **un** marc am bob rheol gywir a restrir, hyd at uchafswm o **ddau** farc.<br><br>Cynnwys dangosol:<br>• defnyddio padell ddofn fawr sy'n ddigon mawr i orchuddio'r pasta mewn dŵr.<br>• gwneud yn siŵr bod digon o ddŵr yn y badell i orchuddio'r pasta.<br>• berwi'r dŵr i ferwi'n ffyrnig cyn ychwanegu'r pasta.<br>• ychwanegu halen / sesnin i'r dŵr i wella'r blas/codi'r berwbwynt.<br>• peidio byth â choginio pasta gyda chaead ar y badell i'w gwneud yn | 2 | | | 2 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | bosibl i'r startsh gormodol anweddu.<br>• troi'r pasta yn y dŵr i'w atal rhag clympio/glynu wrth waelod y badell.<br>• gwneud yn siŵr bod y pasta yn 'al dente', â chnoad cadarn, heb ei or-goginio.<br>• draenio'r pasta yn drylwyr ar ôl ei goginio mewn colander ac ysgwyd i gael gwared ar unrhyw ddŵr sy'n weddill. | | | | |

**Cynlluniau marcio seiliedig ar lefelau**

Ar gyfer cwestiynau sy'n gofyn am ymatebion estynedig

| Cwestiwn | | Ateb |
|---|---|---|
| 2 | (d) | Dadansoddwch fanteision bwyta pasta gwenith cyflawn ar gyfer deiet cytbwys. |

**Cynnwys dangosol**

Rhowch hyd at **ddau** farc AA2 am gymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ran bwyta pasta gwenith cyflawn.

Rhowch hyd at **bedwar** marc AA3 am ddadansoddi manteision bwyta pasta gwenith cyflawn ar gyfer deiet cytbwys

**Cynnwys dangosol**
Gall atebion gyfeirio at y canlynol:

- Mae pasta gwenith cyflawn yn cynnwys mwy o ffibr – sy'n helpu i annog ysgarthu rheolaidd, gan gefnogi system dreulio iach.
- Gwneir pasta gwenith cyflawn o'r grawn cyflawn sy'n cynnwys bran, endosberm a germ – sy'n cynnwys maetholion hanfodol sy'n helpu i reoleiddio siwgr gwaed/iechyd cardiofasgwlar.
- Mae pasta gwenith cyflawn yn gyfoethocach mewn mwynau, er enghraifft, magnesiwm / ffosfforws / potasiwm / haearn – sy'n cynnal iechyd cyffredinol gan helpu iechyd esgyrn / gweithrediad y cyhyrau / gweithrediad y system nerfol.
- Mae pasta gwenith cyflawn yn gyfoethocach mewn fitamin B – sy'n cynnal iechyd cyffredinol gan helpu croen, gwallt, dannedd ac ewinedd iach.
- Mae pasta gwenith cyflawn yn darparu ffibr anhydawdd yn y deiet – sy'n helpu i hybu iechyd y system dreulio, gan atal rhwymedd a hybu llwybr gastroberfeddol iach.
- Mae cymeriant ffibr uwch yn gysylltiedig â gostwng colesterol gwaed – sy'n lleihau'r risg o glefyd y galon.

Rhowch farciau am unrhyw fantais ddilys arall sy'n ymwneud â'r pasta yn llun B.

Rhowch farciau am unrhyw fantais ac anfantais ddilys arall sy'n ymwneud â bwyta pasta gwenith cyflawn.

© WJEC CBAC Ltd. 2025

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| **4** | Nid oes unrhyw farciau band 4 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br><br>Rhoddir 2 farc fel ar gyfer Band 2. | **Rhowch 4 Marc**<br><br>Ymateb ardderchog sy'n dangos:<br>• dadansoddiad hynod effeithiol sy'n nodi perthnasoedd<br>• mae'n cynnwys esboniad manwl o bob agwedd. |
| **3** | Nid oes unrhyw farciau band 3 ar gyfer yr amcan asesu hwn.<br><br>Rhoddir 2 farc fel ar gyfer Band 2. | **Rhowch 3 Marc**<br><br>Ymateb da sy'n dangos:<br>• dadansoddiad effeithiol sy'n nodi perthnasoedd<br>• mae'n cynnwys esboniad manwl o bob agwedd. |
| **2** | **Rhowch 2 farc**<br><br>Ymateb da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o fanteision iechyd penodol bwyta pasta gwenith cyflawn. | **Rhowch 2 farc**<br><br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o ddadansoddiad sy'n nodi rhai perthnasoedd<br>• mae'n cynnwys rhywfaint o esboniad o rai agweddau. |
| **1** | **Rhowch 1 Marc**<br><br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o fanteision iechyd penodol bwyta pasta gwenith cyflawn. | **Rhowch 1 Marc**<br><br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:<br>• ychydig iawn o ddadansoddiad gyda pherthnasoedd cyfyngedig wedi'u nodi<br>• esboniad byr neu dim esboniad. |
| **0** | **0 marc**<br>Ateb ddim yn haeddu marc neu heb geisio rhoi ateb. | |

© WJEC CBAC Ltd. 2025

## Dyddiadau Pwysig

| | |
|---|---|
| Addysgu CBAC TGAU Bwyd a Maeth am y tro cyntaf | Medi 2025 |
| Asesiad cyntaf ar gyfer Uned 1 | Haf 2027 |
| Rhyddhau Uned 2 am y tro cyntaf | Mai 2026 |
| Rhyddhau Uned 3 am y tro cyntaf | Mai 2026 |
| Cyflwyno gwaith Uned 2 am y tro cyntaf | Haf 2027 |
| Cyflwyno gwaith Uned 3 am y tro cyntaf | Haf 2027 |
| Ardystio am y tro cyntaf | Haf 2027 |

© WJEC CBAC Ltd. 2025